| | | |
|---|---|---|
| **Teitl Swydd** : Swyddog Prosiect | **Lleoliad:** Llangefni (gweithredu ar draws Mon a Gwynedd) | **Band Cyflogaeth :** |
| **Yn atebol i** : Rheolwr Menter Iaith | **Yn gyfrifol:** Ymgyrch Llwyddo'n Lleol 2050 | **Amrediad Cyflog : £24,608 – £25,838** |

**Prif ddiben y Swydd:** Cydlynu a rheoli agweddau gweithredol y Cynllun Llwyddo'n Lleol 2050.

## Cyfrifoldebau;

**Prif Ddyletswyddau:**

**Rheoli:** Cefnogi nodau ac amcanion Llwyddo'n Lleol 2050 yn unol â systemau a gweithdrefnau'r cwmni a rheoli perfformiad er mwyn sicrhau y cyflwynir y prosiect o fewn yr amserlenni cytunedig.

**Monitro Prosiectau**: Gweithio gyda'r rheolwr llinell i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno yn unol â phrosesau a gweithdrefnau, a'u cyflawni yn erbyn amcanion a gytunwyd arnynt ymlaen llaw.

**Cyflawni'r prosiect:** Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros y prosiect, gan fonitro gwerth am arian a sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni ar amser, i ansawdd dda gyda'r holl wybodaeth sydd ei angen yn cael eu drosglwyddo i gleientiaid, rhanddeiliaid a chyllidwyr.

**Datblygu prosiectau:** Adnabod cyfleoedd i wella a chyfrannu at nodau cynyddol y prosiect a hefyd y dulliau adrodd.

**Llywodraethu corfforaethol:** Chwarae rôl ymarferol fel cydlynydd er mwyn datblygu cyfeiriad strategol y prosiect, gan ymglymu'r strategaethau cyfathrebu hanfodol gyda rhanddeiliaid. Adrodd y cynnydd i dîm rheoli'r prosiect (rheolwr mewnol a rhanddeiliaid allannol).

**Cynrychioli'r cwmni:** Mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol i ddatblygu perthnasoedd â rhanddeiliaid allanol er mwyn hyrwyddo'r cwmni a datblygu ei enw da yn lleol ac yn genedlaethol.

## Sgiliau / Profiad

**Hanfodol:**

- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu o'r radd flaenaf yn cynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ag amrediad eang o gynulleidfaoedd
- Dealltwriaeth lawn o gyfryngau cymdeithasol a'r gallu i'w defnyddio'n effeithiol.
- Y gallu i gyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn sefyllfaoedd amrywiol.
- Y gallu i feddwl a chynllunio ymlaen.
- Y gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg â'r Saesneg
- Profiad o ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer cyflawni gwaith dydd i ddydd
- Profiad o gydlynu a chynnal gweithgareddau
- Y gallu i gynllunio a gweithio fel rhan o dîm

**Dymunol:**

- Profiad o gydlynu prosiect(au) yn y gorffennol
- Profiad o waith hyrwyddo a marchnata yn y gorffennol.
- Profiad o weithio ar draws ffiniau ac ar draws sefydliadau. e.e.llywodraeth leol i'r sector breifat.

## Cymwysterau

**Hanfodol:**

- Profiad cyfystyr o weithio yn y maes

**Dymunol:**

- Cymhwyster lefel gradd mewn pwnc perthnasol

<table>
<tr><th>Nodweddion Personol</th><th colspan="2">Arall</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Disgwylir i ddeilliant y swydd feddu’r sgiliau canlynol;<ul><li>Sgiliau rhyngbersonol dda</li><li>Cyfrifol</li><li>Trefnus</li><li>Hyblyg</li><li>Dwyn perswâd, dylanwadu ac ysbrydoli eraill</li><li>Brwdfrydedd a chymhelliant</li><li>Sensitif</li><li>Hyderus</li></ul></td><td>Trwydded yrru gyfredol / y gallu i deithio yn ôl y gofyn</td><td>Hanfodol</td></tr>
<tr><td>Y gallu i gyfathrebu yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg</td><td>Hanfodol – Lefel 5</td></tr>
<tr><td>Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol o bryd i’w gilydd</td><td>Hanfodol</td></tr>
</table>